# Côr-ffest

*Astudiaeth gychwynnol ar addasrwydd cynnal digwyddiad cyffelyb yng Ngwynedd / Môn.*



Mari Lloyd Pritchard

Medi 2016.

# Rhagair:

Mae'r syniad o gynnal 'Côrffest wedi ei gyflwyno i banel LAG Gwynedd a Môn. Mae'r syniad yn seliedig ar yr Wyl fawr 'Octoberffest' sydd yn digwydd ers bron i ddau gan mlynedd yn yr Almaen.

Bydd yr astudiaeth yma yn edrych ar addasrwydd y syniad yn unol â thema 1 y cynllun sef '**ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol' sydd yn cynnwys yr amcanion canlynol:**

- · Datblygu mwy o gyfleoedd gwaith a busnes newydd ar gyfer pobl leol trwy arallgyfeirio ac integreiddio yr economi arfordirol ehangach.
- · Creu mwy o gyfranogiad a defnydd o farchnadoedd twristiaeth y tu allan i'r tymor trwy fusnesau newydd a phresennol yn gweithio ar y cyd â chymunedau o ddiddordeb
- · Cryfhau cynhyrchiant a hunaniaeth trefi marchnad fel symbolau arbrofol o ddiwylliant a chynnyrch eu dalgylch.
- Sicrhau y clywir iaith Gymraeg yn y gymuned a'r gweithle ynghyd a chael ei gweld.

## Beth yw Octoberffest?

Mae Octoberffest yn ŵyl draddodiadol yn yr Almaen. Mae'n dyddio o'r ddeunawfed ganrif (1887) ac wedi tyfu i fod yn ddigwyddiad ar raddfa anferthol erbyn hyn.

### Prif atyniadau Octoberffest:





**Mae Octoberffest yn ŵyl draddodiadol yn yr Almaen. Mae'n dyddio o'r ddeunawfed ganrif (1887) ac wedi tyfu i fod yn ddigwyddiad ar raddfa anferthol erbyn hyn.**

## Y prif atyniadau:

- 'Parade' neu broseshiwn mawr (tua 1,000 o bobl) drwy dref Munich yn cael ei arwain gan y Maer gyda cheffylau a throliau yn cario casgenni cwrw, bandiau prês, offerynnau taro, dawnswyr a cherddwyr mewn gwisgoedd traddodiadol.
- Mae'r ŵyl yn dechrau yn swyddogol gyda seremoni  agor (tappio) y gasgen gwrw gyntaf.
- Mae 14 o dentiau (marquees) - pob un yn cynnig cwrw, bwyd ac adloniant gwahanol.
- Mae cerddoriaeth o bob math o fandiau pres i fandiau pop, o gerddorfeyd i grwpiau gwerin.





- Mae'n ddathliad enfawr o draddodiadau a chynnyrch yr Almaen.
- 

## Octoberffest tu allan i'r Almaen?

- Mae Octoberffest wedi rhaeadru allan o'r Almaen erbyn hyn gyda'r unol Daleithiau, Canada, Brazil a Llundain yn ymuno yn yr hwyl o ail-greu yr ŵyl ar ei ffurf Almaenaidd gwreiddiol.
- Cynhaliwyd Gŵyl Gwrw  (Beer festival) ar Ynys Môn tua deg mlynedd yn ôl a hynny yng Nghae Sioe Mona. Roedd y digwyddiad yng ngofal y Lions ym Môn gyda elfennau Octoberffest megis wmpa band traddodiadol yn rhan o'r digwyddiad. Er i'r digwyddiad dalu amdano'i hun ddwy flynedd yn olynnol, ni chafwyd tryddydd digwyddiad.
- Mae sawl gŵyl gwrw ym Mhrydain - dyma galendr o'r digwyddiadau sydd eisoes yn bodoli. http://www.beer-festival-calendar.co.uk

## Troi Octoberffest yn Côr-ffest yng Nghymru?

Mae'r brîff yn nodi mai nôd yr astudiaeth yw i weld os y byddai modd addasu yr octoberffest i ŵyl gorawl hwyliog wedi ei chyfuno â gŵyl gwrw a chynnyrch lleol.

Prif themau Octoberffest yw dathlu tradoodiadau cynhenid yr Almaen drwy:

- darddangos a gwerthu cynnyrch lleol,
- annog pawb i fynychu mewn gwisgoedd traddodiadol,
- arddangos celfyddyd adloniannol e.e. grwpiau gwerin, bandiau pres, grwpiau pop modern.

## Gwerthuso'r syniad :

Y cwestiynnau sy'n codi felly yw:

**A oes angen gŵyl arall yng Ngogledd Cymru?**

**A fyddai corau a chynhyrchwyr â diddordeb?**

**A fyddai'r digwyddiad yn denu cynulleidfa ?**

**A yw'n cyd-fynd â'r themau LAG ?**

**Ar y dudalen nesaf mae enghreifftiau o'r prif ŵyliau yng Ngwynedd, Môn a thu hwnt sydd yn cynnwys elfennau o Octoberffest / Côrffest.**

### Gŵyliau corawl / gwerin :

Gŵyl gorawl Gogledd Cymru (mis Tachwedd).

Yr Ŵyl Gerdd Dant- Pwllheli (mis Tachwedd).

Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Ynys Môn (Awst 2017).

Eisteddfod Môn (mis Mai).

Eisteddfodau pentref lleol e.e.  yn Garndolbenmaen, Botwnnog, Llanuwchllyn, Chwilog, Bodffordd. ( Dim llawer o gorau yn cystadlu mewn eisteddfodau bach).

### Gŵyliau bwyd / cynnyrch: (yn cynnwys adloniant cerddorol).

Gŵyl fwyd Beaumaris.

Gŵyl fwyd Caernarfon (adloniant Cymraeg yn unig).

Gŵyl fwyd môr Borth.

### Gŵyliau gwerinol cyffelyb:

Cnapan https://www.facebook.com/Gwyl-Werin-Y-Cnapan-472253606163263/

Gŵyl Ifan http://www.gwylifan.org/

Gwyl Ban Geltaidd - sgôp mawr yma i drafod y fformat. Gŵyl gerddorol llai ffurfiol o lawer na'r helyw. Elfen gymdeithasol yr ŵyl yn bwysig iawn. Canu mewn tafarndai ac ati ar ôl cystadlu yn rhan mawr o'r ŵyl - ond nid oes gŵyl fwyd / gwrw bwrpasol o'i chwmpas. Mae'r ŵyl hefyd yn newid ardal bob blwyddyn - yn debyg iawn i Eisteddfod yr urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol yma . http://www.gwylbangeltaidd.com/

### Gŵyliau cerddorol:

Mae nifer o ŵyliau cerddorol yng nghymru - dyma link sydd yn eich tywys at restr o'r prif wyliau i gyd: http://www.cerddcymru.com/music-in-wales/festivals?diablo.lang=cym&pagerequest1_ctl00_rptevent1055=4

### Dyma'r prif wyliau cerddorol yng Ngwynedd a Môn:

Festival no.6

Gŵyl gopr, Amlwch

Gŵyl ben draw byd, Pen Llyn.

Y Sesiwn Fawr Dolgellau - sydd yn cael ei disgrifio fel gŵyl werin i'r teulu. Mae grwpiau pop, darlleniadau llenyddol a dawnsio yn rhan o'r ŵyl.

## Côr-ffest - a fyddai gan gorau ddiddordeb? :

Mae nifer uchel o gorau yng Ngwynedd a Môn gyda pob ardal yn meddu a gôr neu barti ieuenctid, meibion, merched neu gymysg.

Mae'r corau yma yn rhannu i ddwy garfan:

1. Corau sydd yn cystadlu yn gyson ar lefel uchel ( rhanbarthol a chenedlaethol). Mae'r corau yma hefyd yn cynnal cyngherddau a theithio i ganu led led Cymru thu hwnt. e.e. Côr Seiriol, Adlais, Côr Eifionydd, Glanaethwy, Côr Godre'r Arran, Y Brythoniaid, Côr Harmoni, hogia Llanbobman.
2. Corau neu bartîon llai sydd ddim yn cystadlu ond yn hytrach yn canolbwyntio ar adlonni yn gymunedol e.e. Hogia Bodwrog, Genod y Gwyndy, Lleisiau, Cadwyn, Meibion Goronwy a llawer llawer mwy.

### Rhaid ystyried y pwyntiau canlynol:

- Nid oes llawer o gystadlaethu hwyliog i gorau. Mae Eisteddfodau a gwyliau corawl yn dueddol o ofyn am raglen amrwyiol o ganeuon sydd yn gofyn am ganu disgybledig a safonol.

- Er mwyn denu corau i gymeryd rhan rhaid ystyried y canlynol:

  **a.** Amser o'r flwyddyn - Digon o amser ymarfer ? Clash hefo paratoi at gystadlaethau eraill ? Digon o aelodau ar gael i fynychu?

  **b.** Gofynion y gystadleuaeth - nangen meddwl am wreiddioldeb / elfen hwyliog i hybu cerddoriaeth gymraeg o bob math o ganeuon gwerin i ganeuon gwreiddiol, sgiffl neu chant beldroed hyd yn oed !

  **c**. Gwobr dda? Sylw yn y wasg / cyfryngau.

  **d.** Lleoliad ac adnoddau (piano, llwyfan, man ymgynull mawr, man ymarfer p.a.)

  **e**. Mae'n wir dweud fod corau yn hoff iawn o'r efen gymdeithasol ynghlwm wrth ganu torfol.

f. Mae'r stomp gerdd dant wedi dod yn boblogaidd iawn yn yr Eisteddfod Genedlaethol - tybed felly fyddai efelychu elfennau o'r eisteddfod dafarn yn syniad yma?

## Denu cynulleidfa ?:

- Byddai côr yn naturiol yn denu cynulleidfa ychwanegol gan eu bod yn dod a’u cefnogwyr hefo nhw.
- Maen presenoldeb y côr ynddo’i hun yn llenwi cynulleidfa unrhyw weithgaredd oherwydd y niferoedd mewn partîon a chorau (15 - 70 ym mhob côr).
- Yr anfantais i hyn wrth gwrs yw nad yw y cantorion eu hunain yn aml iawn yn talu tâl mynediad i ddigwyddiad. Mae’n yn golygu fod nifer uchel o bobl felly yn cael mynediad am ddim. Efallai mai’r ateb yw i godi tâl bychan am gael cymeryd rhan yn y gystadleuaeth (entry fee) on byddai rhaid i unrhyw wobr fod yn ddeniadol i bobl ddod am ddim.
- Mae gofyn ystyried fod rhai corau yn talu ei cyfeilydd ac arweinydd.
- Mae nifer uchel iawn o gyngherddau yng Ngwynedd a Môn a’r nifer wedi cynyddu yn sylweddol iawn wrth i bawb ymdrechu i godi arian at yr Eisteddfod Genedlaethol - a oes angen mwy o weithgarwch o’r fath?

## CASGLIAD:

Mae'r syniad o gyfuno digwyddiad i gorau hefo gŵyl fwyd a chwrw yn un da ac eithaf unigryw.  Prin yw'r cyfleoedd fwy 'ffwrdd a hi' o bosib i gorau a byddai'n ddifyr gweld ymateb y corau llai yn enwedig at gystadlu mewn digwyddiad hwyliog a chymdeithasol. Efallai fod hyn yn estyn cyfle i gantorion na fyddai fel arfer yn cystadlu mewn gŵyliau a chystadlaethau mwy ffrufiol eu natur. Mae apêl yr Wyl Ban Geltaidd yn arwydd o hyn.

Mae'r atyniad at ail-greu gŵyl megis Octoberffest yma yng Ngwynedd neu Ynys Môn yn ddealladwy - ond mae'n debyg mai dilyn esiampl ac ysbryd 'Octoberffest' fyddai orau sef dathlu traddodiadau ein gwlad mewn ffordd hwyliog, werinol. Mae hyn yn ymateb yn uniongyrchol i rai o themau y LAG.

Gellid ymestyn y syniad i ŵyl draddodiadol Gymreig go iawn gan ychwanegu dawnswyr gwerin, clocsiwyr,  bandiau pres, cantorion a grwpiau gwerin a phop at yr elfen gorawl. Mae grwpiau gwerin offerynnol megis Calan a Mabon ( i enwi dim ond dau) yn hynod boblogaidd erbyn hyn ac yn gweithio'n galed i adfywio cynulleidfa ac apêl cerddoriaeth werin Cymru. Mae côst hyn wrth gwrs yn bwynt trafod.

Byddai cyfuno'r elfen amaethyddol a chynnyrch lleol yn ddathliad cyflawn o'n traddodiadau ac yn sicr yn hyrwyddo a gwarchod ein treftadaeth i'r dyfodol.  Rhaid cofio fodd bynnag fod gŵyliau bwyd eithaf newydd  eisoes yn digwydd yng Nghaernarfon a Beaumaris er enghraifft. Mae nhw'n ddigwyddiadau ar raddfa eithaf mawr ac yn cynnwys elfen ddiwyllianol, adloniant gerddorol a chynnyrch lleol. Mae'r digwyddiadau yma wedi profi i fod yn hynod lwyddianus gyda torfeydd mawr yn mynychu.

Mae torfeydd enfawr hefyd yn mynychu'r Ŵyl gopr yn Amlwch a'r Sesiwn Fawr yn Dolgellau i enwi dim ond dwy ŵyl gerddorol. Beth mae hyn yn ei ddweud ? Fod pobl yn amlwg yn mwynhau gŵyliau safonol ar raddfa fawr. Fod pobl lleol yn dda am gefnogi digwyddiadau mawr yn eu milltir sgwar eu hunain.

Mae’r gŵyliau yma yn llwyddianus am fod y cynnyrch yn iawn, yr apel yn eang a’r cynnwys yn afaelgar. Y cwestiwn mawr felly yw - a oes lle i ŵyl fawr arall yng nghalendr Gwynedd a Môn ?

Mae prysurdeb yr Eisteddfod Genedlaethol hefyd yn dod i Ynys Môn yn Awst 2017 ac mae’r bwrlwm a’r paratoi yn mynd i i gymeryd amser llawer i gerddor a chôr dros y flwyddyn nesaf - yn enwedig a chôr yr Eisteddfod yn cychwyn ym mis Hydref. Byddai’n risg cynnal unrhyw ddigwyddiad ychwanegol cyn Awst 2017.

## Argymhellion:

1. Cynnal ymchwiliad ymgynghorol pellach i’r gofyn am gynnal gŵyl werin sydd yn sefyll ar ei thraed ei hun o fewn calendr gŵyliau Gwynedd a Môn.

2. Edrych ar y posibiliadau o gyd-weithio gyda un o’r gŵyliau sydd eisoes yn bodoli gan gynnig cyfoethogi’r digwyddiad wrth ychwanegu yr elfen yma.

3. Peidio ystyried ymhellach gan fod digon o wyliau a chystadlaethau corawl yn digwydd.